



**YLab**

Adroddiad Gwerthuso Terfynol  
Arloesi er mwyn Arbed

# Crynodeb Gweithredol

[ylab.wales](http://ylab.wales)  
[ylab@cardiff.ac.uk](mailto:ylab@cardiff.ac.uk)  
029 2087 9720



# 1. Beth oedd Arloesi i Arbed?

**Dyluniwyd y Rhaglen Arloesi i Arbed (I2S), a lansiwyd ym mis Ionawr 2017, i gefnogi prosiectau arloesi yng Nghymru a oedd â'r potensial i: wella gwasanaethau cyhoeddus, a chynhyrchu arbedion ariannol. Fe'i hariannwyd gan Lywodraeth Cymru a'i rhoi ar waith gan Y Lab, gyda chefnogaeth gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ac fe'i cyflwynwyd mewn dwy fersiwn ddilyniannol.**

Cynigiodd y rhaglen I2S gyllid grant, cymorth anariannol a benthyciadau ad-daladwy, gan alluogi sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector i allu paratoi, treialu, graddio a gwerthuso prosiectau arloesol. Darparwyd hwyluso yn uniongyrchol trwy'r gweithdai a thechnegau rheoli arloesi, yn ogystal â thrwy annog rhagor o gefnogaeth gan gymheiriaid ar ôl i brosiectau gael eu dewis.

Cafwyd dwy fersiwn o raglen I2S, sy'n cyfateb i ddwy alwad am gyllid (Ionawr 2017; a Chwefror 2018) y cyfeirir atynt yma fel v1 a v2. Daeth y rhaglen i ben ym mis Rhagfyr 2020, er y bydd prosiectau a ariennir yn parhau i gael eu gweithredu. Cafodd cronïad yr arbedion ariannol eu rhagamcanu bob amser dros y tymor canolig, gan ymestyn y tu hwnt i oes I2S.

Gwahoddwyd sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector yng Nghymru (gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd, elusennau a mentrau cymdeithasol) i gyflwyno cais i gael eu cefnogi gan gronfa I2S. Roedd cyllid grant rhwng £5,000 a £15,000 y prosiect ar gyfer yr alwad ym mis Ionawr 2017, ac roedd £5,000-30,000 ar gyfer galwad 2018 ar gael.


## **Denodd y ddwy don ariannu gyfanswm o 70 cais (v1 = 50; v2 = 20) a gyflwynwyd i'r rhaglen I2S. Derbyniodd pymtheg prosiect arloesi (v1 = 8; v2 = 7) gyfanswm cyllid gwerth:**

- £269,398 i brototeipio a phrofi eu syniadau arloesi yn ystod y cyfnod ymchwil a datblygu.
- Wedi hynny, cymeradwywyd cyllid ar ffurf benthyciad o £2,846,846.00 (ar gyfer pedwar prosiect) gydag Enillion 5-mlynedd ar Fuddsoddiad (ROI) o £13.27 am bob £1 a fuddsoddwyd.
- Ar gyfer y ddau brosiect yn y cam gweithredu, benthycwyd £2,149,950.00, gyda ROI 5 mlynedd o 15.63 am bob £1 a fuddsoddwyd.


Ar gyfer prosiectau sydd angen benthyciadau o hyd at £1m, profodd hyn i fod yn ddull llwyddiannus o ariannu arloesi mewn gwasanaethau cyhoeddus, ond bydd eu gweithredu yn profi ai dyma'r sefyllfa go iawn. O ran prosiectau gweithredu mwy uchelgeisiol/cymhleth, gwerth mwy na £1m, ein canfyddiad oedd bod angen mwy o amser datblygu.

## 2. Dulliau I2S

Roedd gan I2S dri cham ar wahân:



This format was developed to effectively support public and third-sector organisations (including social enterprises and public/private sector partnerships) in:



Cyflwynodd timau a oedd am gymryd rhan yn y cam ymchwil a datblygu gais i wneud hynny ar ddiwedd Cam 1. Gwahoddwyd y prosiectau hynny sy'n cwblhau Cam 2 yn llwyddiannus – a, gan eu bod yn dangos tystiolaeth gychwynnol ar gyfer gwella gwasanaethau a'r potensial i gynhyrchu 'arbedion ariannol' – fe'u gwahoddwyd i gyflwyno achos busnes i wneud cais am gyllid yn seiliedig ar fenthyciad gan Lywodraeth Cymru, i'w galluogi i wneud eu prosiectau arloesi'n fwy a'u rhoi ar waith yng Ngham 3.

Ar ddechrau I2S, datblygwyd model rhesymeg sylfaenol, gan nodi mewnbynnau, canlyniadau a phrosesau arfaethedig ar bob un o bedair lefel - sefydliadau, rhwydweithiau, unigolion, a syniadau. Defnyddiwyd y rhain fel canllaw ar gyfer monitro a gwerthuso. Y bwriad oedd y byddai'r rhaglen I2S yn broses iteraidd, ac felly cafodd canfyddiadau'r monitro (holiaduron a chyfweliadau ag aelodau'r tîm sy'n cymryd rhan) eu bwydo i mewn i dîm cyflwyno'r rhaglen, gan arwain at wneud addasiadau i v2. O ganlyniad, cafwyd dwy fersiwn wahanol o'r rhaglen yn fwriadol, h.y. Fersiwn 1 a Fersiwn 2.

Ymhlith y newidiadau roedd:

- Lleihau nifer y ceisiadau trwy newid yr amodau, o 50 i 20.
- Newid swm y grant oedd ar gael ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu o £5k-15k i £5k-30k;
- Ymestyn hyd y cyfnod ymchwil a datblygu o 6 i 11 mis.

Parhaodd monitro a gwerthuso o v1 a v2 trwy gydol y broses ac, yn ogystal â helpu i lunio a datblygu'r newidiadau i'r rhaglen, roedd hefyd yn nodi'r canfyddiadau allweddol a gafwyd o weithredu I2S. Mae'r canfyddiadau hyn yn ddefnyddiol i unrhyw un sy'n ceisio rhoi arloesi ar waith ar draws unrhyw wasanaeth yn ogystal ag i unrhyw sefydliad sydd eisiau cyflwyno rhaglen debyg i annog gwelliannau o ran gwasanaethau ac arbedion ariannol.

# 3. Canfyddiadau Gwerthuso I2S

## 3.1 Hwyluswyr a Rhwystrau

Cynhaliwyd cyfanswm o bum deg un o gyfweiliadau yn ystod y gwerthusiad (43 gydag aelodau tîm y prosiect ac 8 gydag aelodau tîm y rhaglen). Darganfuwyd nifer o hwyluswyr, a rhwystrau i arloesi, yn y cyfweiliadau hyn. Roedd y rhain wedi'u rhannu rhwng sefydliadau cartref y timau prosiect a rhaglen I2S. Y prif rwystrau yn y rhai cyntaf oedd: Bod yn agored i arloesi a chefnogaeth gan reolwyr uwch, dyrannu amser, Partneriaethau a COVID-19.

Yn y rhaglen, y problemau (gyda v1) oedd yr amser penodol oedd ar gael i ymgymryd â gwaith ymchwil a datblygu a lefelau cefnogaeth anwadal dros amser ac mewn gwahanol elfennau o'r gwaith. Oherwydd y monitro parhaus, roedd yr adborth hwn yn sail i'r addasiadau a wnaed i v2, ac ychydig iawn o sylwadau beirniadol ar y pynciau hyn a wnaed gan yr ail garfan.

O ran hwyluswyr i arloesi, roedd profiad y rhai oedd yn gweithredu ar lefel sefydliad cartref yn debyg. Cefnogaeth a chymorth cyson rheolwyr, ynghyd â dyraniad amser effeithiol oedd y peth pwysicaf.

### **Nododd y gwerthusiad bum prif hwylusydd ar gyfer arloesi a ddeilliodd o raglen I2S:**

1. Natur y berthynas/ymddiriedaeth rhwng timau prosiect a thîm I2S;
2. Dilysrwydd, neu kudos uwch y prosiect a gafwyd trwy gymryd rhan;
3. Ethos y rhaglen, a'r anogaeth a roddir i arbrofi;
4. Cyflwyno offer/sgiliau newydd, e.e. ymchwil a datblygu, mapio rhanddeiliaid, cyflwyniad, cynllunio ariannol;
5. Hwyluso mynediad at rwydweithiau trwy gymryd rhan yn I2S

### 3.2 Newid a thystiolaeth

Un elfen allweddol o'r rhaglen hon oedd ei gallu i sicrhau newid yn seiliedig ar arloesi o ran: arferion, dysgu cymhwysol, a dealltwriaeth o arloesi. Rhoddwyd sylw penodol cadarnhaol i'r gwaith ymchwil a datblygu, a daeth yn amlwg o'r data a gafwyd mewn cyfweiliadau mai dyma oedd y rhan hanfodol o'r profiad dysgu, i lawer. Fodd bynnag, roedd sgiliau fel mapio

rhanddeiliaid, cynllunio a chyflwyniad ariannol hefyd yn arwain at adborth cadarnhaol iawn gan y timau.

Canfu'r gwerthusiad dystiolaeth sylweddol o uwchsgilio ac, yn hollbwysig, o newid agwedd. Oherwydd i bobl gymryd rhan yn y rhaglen daeth arloesi yn rhywbeth dymunol a chyraeddadwy, ac enillodd unigolion a thimau'r hyder a allai nawr arwain at newid arloesol. Rydyn ni'n cyfeirio at hwn, fel ffordd hwylus o'i ddisgrifio, fel 'dychymyg arloesol'. Dangoswyd hyn hyd yn oed yn y cyfweiliadau gyda thimau prosiect na chawsant eu hariannu y tu hwnt i'r cyfnod ymchwil a datblygu, ac sydd wedi mynd ymlaen i wneud gwaith arall gan ddefnyddio'r gallu a'r sgiliau arloesi a enillwyd ganddynt trwy gymryd rhan yn I2S.

#### Mae'r 'dychymyg arloesol' i'w weld yn y pethau canlynol



#### Amlygwyd yr holl elfennau hyn yn y broses werthuso.

Ar ben hynny, yn ogystal ag I2S yn datblygu gallu pobl i arloesi, gwelsom dystiolaeth o gyd-greu gwerth (syniad a ddefnyddir i gipio sut mae 'budd' i chi eich hun neu i 'weithredwyr' eraill yn cael ei greu trwy'r prosesau o gymhwyso gwybodaeth a sgiliau er budd un arall; ac integreiddio adnoddau. Dyma lle mae gwybodaeth a sgiliau 'newydd' yn cael eu cyfuno i wneud adnoddau newydd. Dywedodd un aelod o dîm y prosiect: *'Ie, rwy'n falch ein bod wedi cael syniad, ac wedi ei ddatblygu mewn gwirionedd, ac mewn gwirionedd mae gennym ni nawr, nid yn unig syniad ond peth gwirioneddol sydd â'r siawns orau bosibl o weithio, ac rydyn ni'n gwybod yr hyn rydym yn credu y bydd yn ei gyflawni. Ac os yw'n gwneud yr hyn rydyn ni'n meddwl y bydd yn ei wneud, mae bywydau [GRŴP CLEIENT] yn mynd i fod yn hollol wahanol'.*

## 4. Enghreifftiau o arbedion a gwelliannau i wasanaeth

**Cynhyrchodd y rhaglen arbedion a gwnaeth hefyd alluogi cael syniad cliriach o sut y gellid sicrhau arbedion mewn sawl ffordd. Mae prosiectau eraill wedi cynhyrchu tystiolaeth ar welliannau gwasanaeth tebygol.**

Rhagwelir y bydd addasiad gwasanaeth maethu Cyngor Sir y Fflint o Fodel Teulu Mockingbird yn arwain at ostyngiad mewn gwariant ar leoliadau y tu allan i'r sir a phreswyl dros y 5 mlynedd nesaf. Bydd costau recriwtio hefyd yn cael eu lleihau, wrth i ofalwyr maeth gael eu cadw ac wrth i ofalwyr mwy profiadol gael eu denu gan y model cymorth.

Anogodd Surple, cwmni sy'n defnyddio technoleg i helpu cwsmeriaid cyfleustodau mawr i leihau gwastraff a gostwng biliau, osod mesuryddion dŵr yn ysgolion Casnewydd fel ffordd o fesur llwyddiant ei ymyrraeth. Darganfu'r mesuryddion hyn sawl gollyngiad dŵr, gan arbed arian sylweddol i'r Cyngor.

Roedd y cam ymchwil a datblygu wedi galluogi timau prosiect i ddatblygu mwy o werthfawrogiad o'r arbedion y gellid eu gwneud o'u prosiectau. Weithiau, byddai'r arbedion yn rhy hir i fod yn briodol ar gyfer y math hwn o gyllid ar ffurf benthyciad. Felly, mae nifer o brosiectau yn archwilio ffyrdd eraill o ariannu eu syniad a datblygu eu prosiectau. Datblygodd timau eraill brosiectau a oedd yn rhy uchelgeisiol ar gyfer cyllido benthyciadau yn unig ond dim ond trwy ymgymryd â'r gwaith ymchwil a datblygu gyda'r rhaglen yr oeddent yn gallu llawn werthfawrogi hyn.

Llwyddodd pedwar prosiect i nodi potensial eu prosiectau i wella gwasanaethau, ond nid oeddent yn gallu cynhyrchu digon o dystiolaeth o fewn yr amserlen i goladu achos busnes cadarn i'w rhoi ar waith yn llawn. Maent felly yn canolbwyntio ar weithio gyda phartneriaid

(hen a newydd) i symud eu gwaith ymlaen ymhellach ac i archwilio llwybrau i'w defnyddio i'w rhoi ar waith yn llawn. Cynhyrchodd tri phrosiect arall arwyddion cynnar

y gallai eu prosiectau weithio, ond bod arnynt angen mwy o amser i'w datblygu.

Amharodd COVID-19 ar waith rhai prosiectau. Defnyddiodd Leonard Cheshire Disability eu gwaith ymchwil a datblygu i brofi model newydd, mwy cymdeithasol o gefnogaeth bersonol i oedolion ag anableddau. Roedd yn llwyddiant ysgubol a chynyddwyd lles rhai a gymerodd ran, gyda llai o oriau gofalwr un-i-un. Yn anffodus, mae'r pandemig wedi atal eu cyflwyno i fwy o awdurdodau lleol, ond mae LCD yn barod i ddod â buddion eu model newydd i bobl anabl ledled Cymru cyn gynted ag y bydd yn ddiogel gwneud hynny.

Defnyddiodd tri thîm eu hamser gwaith ymchwil a datblygu i addasu a datblygu atebion technoleg newydd i'w problemau. Er enghraifft, roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn deall y gallai technoleg eu helpu i ddilysu presgripsiynau yn fwy effeithlon. Fe wnaeth Arloesi i Arbed eu helpu i ddiffinio eu problem a dod o hyd i bartner technoleg a oedd yn gallu gweithio gyda nhw i ddod o hyd i ateb. Fe wnaeth y cynnyrch a wnaed ganddynt arbed amser fferyllwyr ysbyty ac mae'r tîm bellach yn selogion dros awtomeiddio yn fferyllfa'r ysbyty trwy ddefnyddio dulliau robotig.

At hynny, defnyddiodd timau ar draws y ddwy garfan eu hamser gwaith ymchwil a datblygu i gael dealltwriaeth ddyfnach o'r problemau yr oeddent yn mynd i'r afael â nhw o safbwyntiau staff rheng flaen a defnyddwyr gwasanaeth. Er enghraifft, siaradodd PromoCymru â phobl ifanc, gan gynnwys pobl ifanc F/fyddar, i ddeall yn llawnach y problemau ynghylch gwybodaeth gyfredol am iechyd rhywiol. Yna fe wnaethant ddychwelyd i'r un grwpiau i sicrhau bod y gwasanaeth a ddatblygwyd ganddynt yn welliant.

## 5. Beth ddigwyddodd nesaf i dimau'r prosiect a'u prosiectau?

Cwblhaodd pob tîm prosiect y cam ymchwil a datblygu. Ceir crynodeb o'r hyn a ddigwyddodd i'r prosiectau ar ôl y cam ymchwil a datblygu yn y ddau dabl isod:

**Tabl 1: Prosiectau nad oeddent yn cael eu hariannu y tu hwnt i'r cyfnod Ymchwil a Datblygu o dan I2S**

Nifer y prosiectau (Cyfanswm n = 11)	Nifer	Arian allanol
<b>Statws prosiect</b>		
Prosiect yn dal i gael ei ddatblygu	2	Ydy (1) Nac ydy (1)
Rhodddwyd y prosiect ar waith yn llawn	1	Do
Rhodddwyd y prosiect ar waith yn rhannol	2	*Do
Ni roddwyd y prosiect ar waith	3	Nage
** Nid yw statws y prosiect yn hysbys	3	Ddim yn hysbys
<b>Datblygiadau eraill</b>		
Ceisio cyllid ychwanegol i weithredu/parhau â'i ddatblygu	5	
Prosiectau ychwanegol/newydd ers cwblhau I2S	3	

\* Un prosiect yn dal i aros am ganlyniad cais am arian. \*\* Ni chymerodd timau prosiect ran mewn cyfweiliad ac nid oedd yn bosibl nodi statws y prosiect trwy ddadansoddiad dogfennol/chwiliadau gwe ychwanegol.

**Tabl 2: Prosiectau a ariannwyd y tu hwnt i gam ymchwil a datblygu o dan I2S ac a symudwyd ymlaen i'r cam Gweithredu**

Prosiect gweithredu	Datblygiadau
<b>Prosiect 1 (I2S v1)</b>	Datblygwyd seilwaith o ran adnoddau a rhwydweithiau sy'n ofynnol ar gyfer gweithredu'r prosiect yn raddol. Fodd bynnag, bu oedi wrth ei weithredu a'i gyflwyno oherwydd COVID-19.
<b>Prosiect 2 (I2S v1)</b>	Prynu'n rhannol y prif adnoddau sydd eu hangen. Nid yw datblygiadau pellach yn cael eu gohirio gan nad yw'r model cyfredol ar gyfer y gwasanaeth a chyflawni'n ddichonadwy ar hyn o bryd.
<b>Prosiect 3 (I2S v2)</b>	Oedi wrth gaffael a/neu osod offer/cit angenrheidiol er mwyn i'r prosiect allu dechrau. Oedi wrth ei weithredu a'i gyflwyno oherwydd COVID-19. Gweithredu o 2021 i gael ei ariannu'n uniongyrchol gan y sefydliad yn hytrach na thrwy fenthyciad gan Lywodraeth Cymru. Trefniadau ar y gweill i dynnu'n ôl o'r rhaglen ac ad-dalu Llywodraeth Cymru.
<b>Prosiect 4 (I2S v2)</b>	Datblygiad parhaus o'r seilwaith y mae ei angen i weithredu'r prosiect yn raddol, ond gyda rhywfaint o oedi wrth ei weithredu a'i gyflwyno oherwydd COVID-19.

# 6. Argymhellion

## Deilliannau llwyddiannus

Mae'r adroddiad gwerthuso hwn wedi nodi nifer o ganlyniadau llwyddiannus a gafwyd trwy'r rhaglen. Dyluniwyd a datblygwyd sawl prosiect arloesol cryf yn y rhaglen, a nodir eu harbedion posibl uchod. Bydd yr arbedion hynny'n cael eu cronni dros gyfnod o flynyddoedd ar ôl i'r prosiect gael ei weithredu.

Cydnabuwyd strwythurau a phrosesau'r rhaglen fel rhai effeithiol gan y timau prosiect a thîm cyflwyno'r rhaglen.

### Gellir crynhoi hyn fel a ganlyn:

- Cyllid dau gam; cam 1 i ddatblygu prosiect gyda gwaith ymchwil a datblygu; a bydd y cyllid terfynol ar gyfer gweithredu yn dibynnu ar ddarparu adroddiad ymchwil a datblygu yn nodi arbedion ariannol.
- Mae carfannau'n cael eu recriwtio trwy gyflwyno ceisiadau, ac mae'r rhain yn cael eu gwerthuso a'u hategu trwy gyfweiliadau;
- Mae timau prosiect llwyddiannus yn mynychu cyfres o ddigwyddiadau lle mae mewbynnau'n cael eu cyflwyno - trwy amrywiaeth o fformatau - ar wahanol agweddau ar waith gan gynnwys sgiliau penodol er enghraifft gwaith ymchwil a datblygu, mapio rhanddeiliaid, cyflwyniad a chyllid;
- Mae timau'n gweithio ar eu prosiectau rhwng digwyddiadau ac mae ganddynt berthnasoedd gwaith agos parhaus gyda thîm cyflwyno'r rhaglenni;
- Mae monitro adborth yn galluogi gwneud gwelliannau i'r rhaglen;
- Meithrin datblygiad carfan a rhwydweithio;
- Mae gwerthuso'r prosesau yn galluogi nodi tystiolaeth o newid yn ystod oes y rhaglen.

Fe wnaeth I2S feithrin datblygiad 15 prosiect, ymhlith y rhain rodd rhai oedd yn cynnwys sefydliadau sector cyhoeddus a thrydydd sector (ac un bartneriaeth sector preifat-cyhoeddus). Mae'n annhebygol y byddai'r rhain wedi digwydd heb y rhaglen. Mae hyn hefyd yn wir am brosiectau y cymerodd dim ond sefydliadau'r trydydd sector neu'r sector cyhoeddus a ran ynddynt.

Cafwyd ymdrech barhaus i ddatblygu agweddau arloesol cryf ymhlith y timau prosiect ynghyd â sgiliau allweddol. Yn wir, roedd y rhai a gymerodd ran yn ystyried bod sgiliau ymchwil a datblygu, mapio rhanddeiliaid a chynllunio ariannol yn arbennig o ddefnyddiol. Mae'n hanfodol i lwyddiant prosiect unigol nodi'r union broblem sydd i'w datrys - ac mae gwneud hynny'n rhan o'r broses ymchwil a datblygu. Datgelodd cyfweiliadau fod sgiliau a ffyrdd o feddwl o'r fath wedi'u datblygu ymhellach ers i'r rhan honno o'r rhaglen ddod i ben. Mae hyd yn oed timau na chawsant eu hariannu trwy fenthyciad wedi defnyddio'r sgiliau hyn yn llwyddiannus mewn prosiectau eraill.

Nodwyd bod lefel ac ansawdd ymgysylltiad y tîm cyflwyno rhaglenni â'r cyfranogwyr a'u prosiectau yn elfen allweddol sy'n gyrru'r rhaglen, gan ddarparu arbenigedd a chryfhau ymrwymiad timau prosiect.

Roedd dyluniad y rhaglen, a oedd yn defnyddio monitro i fwydo mewnbwn cyfranogwyr yn ôl i dîm y rhaglen, wedi



galluogi gwneud newidiadau amserol a phriodol i'r cyflawniad a'r dyluniad. O ganlyniad, cryfhawyd fersiwn 2 yn sylweddol oherwydd y profiad a gafwyd yn fersiwn 1.

Un o nodau'r rhaglen oedd cynhyrchu 'effaith carfan' ymhlith y cyfranogwyr a oedd yn cysylltu pobl ar draws sectorau gweithgaredd a rhwng sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector. Cyflawnwyd hyn yn rhannol trwy sefydlu gweithgareddau a greodd gyfleoedd ar gyfer y math hwn o waith, a thrwy fonitro rhai o'r dangosyddion yn ystod camau cynnar y rhaglen. Daeth i'r amlwg hefyd o gyfweiliadau â chyfranogwyr ar ôl y camau ymchwil a datblygu a champau gweithredu eu bod yn elfen werthfawr a defnyddiol o'r rhaglen, gan ddarparu nid yn unig cysylltiadau, ond ffordd wahanol o ragweld rhwydweithio, sy'n cael ei gymhwyso mewn gwaith diweddarach.

Daeth cyfres o heriau i'r amlwg hefyd, a manylir ar y rhain yn adran 7 yr adroddiad llawn. Rydym yn darparu crynodeb ohonynt yn y tabl isod, gydag argymhellion ar gyfer pob llwyddiant a her yn y rhaglen.

**Table 3. Llwyddiannau ac argymhellion**

Casgliad o'r Adroddiad Gwerthuso	Argymhellion
Dyluniwyd a datblygwyd sawl prosiect arloesol cryf yn y rhaglen.	Roedd strwythur a nodau'r rhaglen (a amlinellir uchod) yn effeithiol ac yn briodol. Dylid eu hymgorffori mewn unrhyw gyfluniadau pellach o raglenni arloesi.
Lefel ac ansawdd ymgysylltiad y tîm cyflwyno rhaglenni â'r cyfranogwyr a'u prosiectau.	Sicrhau ymgysylltiad cryf ac effeithiol â chyfranogwyr trwy ganolbwyntio ar adeiladu perthnasoedd ymddiriedus cryf gyda thimau'r prosiectau.
Roedd dyluniad y rhaglen, a oedd yn defnyddio monitro i fwydo mewnbwn cyfranogwyr yn ôl i dîm y rhaglen, yn aml wedi galluogi gwneud newidiadau amserol a phriodol i'r cyflawniad a'r dyluniad.	Mae hyblygrwydd wrth ddylunio rhaglenni o fudd pan fydd yn galluogi gwneud newidiadau sydd o fudd i'r prosiect. Mae hyn yn gofyn am berthynas llawn ymddiriedaeth rhwng y prosiectau a thîm y rhaglen gan ganiatáu i'r posibilrwydd o wyro o'r cynllun cychwynnol.

**Table 4. Heriau ac argymhellion**

Casgliad o'r adroddiad Gwerthuso	Argymhellion
Mae cyfranogwyr yn ystyried bod sgiliau ymchwil a datblygu yn arbennig o ddefnyddiol Roedd nodi'r broblem benodol trwy ddefnyddio cwestiynau ymchwil clir yn gwbl allweddol i hyfywedd a llwyddiant y prosiect.	Mae gwaith ymchwil a datblygu effeithiol yn hanfodol i Arloesi. Dylid ystyried ei fod yn set sgiliau craidd yn y maes hwn, a chaniatáu digon o amser ar ei gyfer. Ni ddylid cymryd yn ganiataol bod tîm y prosiect yn gwybod yr union broblem y maent yn ceisio ei datrys. Dylid gwneud y broses o nodi a lleihau'r broblem yn hanfodol bwysig.
Cafwyd ymdrech barhaus i hyfforddi a datblygu agweddau, arferion a sgiliau arloesol cryf.	Gellir mesur newidiadau mewn agweddau trwy ddefnyddio dulliau empirig ac maent yn elfennau pwysig o arloesi. Dylai ffyrdd o ddatblygu meddylfryd arloesol a mesur eu datblygiad fod yn elfennau safonol mewn rhaglenni arloesi.

<p>Gwnaeth y rhaglen alluogi datblygu prosiectau cydweithredol a oedd yn cynnwys sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae partneriaethau rhwng sefydliadau'r sector cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector yn cymryd amser i'w rhoi ar waith, ond mae llwyddiant y prosiect yn dibynnu ar wneud hyn.</p>	<p>Mae'r pwyslais ar gydweithredu rhwng partneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn ganlyniad dymunol a dylid ei ystyried. Dylid nodi hefyd bod yn rhaid i'r gefnogaeth a ddarperir fod yn hyblyg, yn dibynnu ar faint y sefydliadau. Rhaid i bartneriaethau fod ar waith neu dylent gael eu rhoi ar waith ar y dechrau fel rhagofyniad: contractau a chytundebau ffurfiol rhwng partneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, gan nodi beth yw natur y gwaith, yr hyn y mae pob partner yn ei gyfrannu, a mynd i'r afael yn llawn ag unrhyw angen am rannu data, ac ati.</p>
<p>Roedd yn anodd iawn asesu (yng nghyfnod cynnar y rhaglen, cyn y cam ymchwil a datblygu) pa mor debygol oedd y byddai prosiectau yn gwneud arbedion ariannol. Felly ariannwyd rhai prosiectau i wneud y cam ymchwil a datblygu ond yna nid oeddent yn dangos arbedion ariannol. Felly nid ariannwyd y prosiectau hynny i barhau i'r cam gweithredu.</p>	<p>Dylai prosiectau fod â llinellau cyllidebol penodol wedi'u nodi ymlaen llaw i sicrhau potensial credadwy ar gyfer arbedion cyn dechrau ar y cam ymchwil a datblygu. Dylid cynnwys y cwestiwn "o ba linell/ llinellau cyllidebol y byddai'r arbedion yn dod?" yn y ffurflen gais.</p>
<p>Bu'n anodd dod o hyd i arbedion ariannol ar lefel prosiect am nifer o resymau.</p>	<p>Dylid dod ag economegwyr allanol i mewn yn gynnar i raglenni sy'n anelu at gael arbedion er mwyn: meithrin sgiliau, a chynghori ar sut y gellid gwneud arbedion ariannol. Dylai diwygiadau i'r rhaglen dynnu sylw at y rhain ac ymgorffori eu datrys fel sgil.</p>
<p>Mae'n hanfodol cadw momentwm a ffocws yn y gwaith sydd mynd rhagddo er mwyn sicrhau arbedion ariannol.</p>	<p>Y person allweddol yw deiliad y gyllideb. Mae angen i'r deiliad chwarae rhan lawn mewn prosiectau o'r cychwyn cyntaf - yn aelod craidd o'r tîm, gydag amser ac adnoddau wedi'u dyrannu iddo.</p>
<p>Mae creu effaith carfan ar draws sectorau yn gofyn am ymdrech barhaus.</p>	<p>Dylid cynnwys creu effeithiau carfan/rhwydweithio, sy'n ffyrdd effeithiol o gynorthwyo arloesedd fel nodau craidd rhaglenni arloesi. Ymhlith yr offer amrywiol ar gyfer cyflawni hyn mae dull Troica.</p>
<p>Nodwyd mai'r rhwystrau a'r hwyluswyr mwyaf arwyddocaol i arloesi yn y rhaglen hon yw: cefnogaeth gan reolwyr; ymroddiad amser gan y sefydliad; perthnasoedd rhwng ac o fewn timau; ac argaeledd y setiau sgiliau gofynnol (a roddwyd i'r prosiect hwn, er enghraifft ymchwil a datblygu, sydd â'i argymhelliad ei hun):</p>	

<p>- Cefnogaeth yr uwch dîm rheoli</p>	<p>Gellid rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau ymrwymiad yn y maes hwn a phrawf o ymrwymiad yn gynharach yn y broses, e.e. ar gyfer prosiectau sy'n gwneud cais am fenthyciadau neu yn y cyfnod gweithredu, ymrwymiad gan uwch reolwr i fynychu o leiaf un cyfarfod misol ar y prosiect?</p>
<p>- Mae trefniant amser penodol yn rhwystr neu'n hwylusydd arall</p>	<p>Dylai trefniant amser fod yn rhan o'r cynllun ar y cychwyn. Amser wedi'i neilltuo yw'r delfryd, er mwyn lleihau'r posibilrwydd o beidio â chwblhau amcanion allweddol y prosiect.</p>
<p>Gwellhawyd y broses gwneud cais er mwyn cael gwared ar ragfarn a bod yn fwy effeithiol wrth ddod o hyd i brosiectau a allai fod yn gryf. Gellir gwella'r broses ymhellach, yn enwedig o ran pa wybodaeth sy'n ofynnol ar ba gam.</p>	<p>Defnyddiwch ffurflenni cais symlach ac wedi'u targedu ar ôl defnyddio ffurflenni Mynegi Diddordeb i wirio cymhwysedd.</p>
<p>Mae'n rhaid i'r gwerthuso fod yn briodol i'r prosiect. Dylai fod o leiaf dri math o werthuso defnyddiol: proses; monitro; a chanlyniadau. Mae gan bob un ei ddefnydd a'i strwythur ei hun. Yn y rhaglen hon, mae canlyniadau i ddinasyddion yn debygol o barhau i newid y tu hwnt i gwmpas y rhaglen, gan wneud gwerthuso canlyniadau yn anodd.</p>	<p>Mae angen cynnwys proses werthuso hyblyg wedi'i chynllunio'n dda iawn o'r dechrau er mwyn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>i) gallu monitro'n effeithiol a bwydo canfyddiadau i'r broses benderfynu.</li> <li>ii) gallu mesur y prosesau a amlinellir mewn theori newid yn effeithiol. Dylai ffyrdd o gasglu data fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu addasu o fewn nodau cyffredinol y rhaglen. Dylid cynllunio bod gwerthuso rhai elfennau yn brosiectau ar wahân, gyda'u llinellau cyllidebol eu hunain, oherwydd yr amserlen. Mae arbedion ariannol ac effeithiau ar ddefnyddwyr gwasanaeth yn ddwy elfen o'r fath.</li> </ul>

**Gyda diolch i'n harianwyr a'n partneriaid yn y rhaglen Arloesi er mwyn Arbed, yn ogystal â'r holl brosiectau sy'n parhau i weithio'n galed i wella gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer y bobl sy'n eu defnyddio.**